Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 31/2015

www.cymru.gov.uk

# Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau:

## Camau 6 a 7

# **Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau:** Camau 6 a 7

**Ian Jones**

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**

**Llywodraeth Cymru**

**Casglwyd y data gan Beaufort Research Ltd.**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 15 Mehefin 2015

ISBN 978 1 4734 3696 1

© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Agored y Llywodraeth v3.0 ac eithrio ble nodir yn wahanol.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

## Tabl cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhestr o dablau a ffigurau | 2 |
| **Canfyddiadau allweddol** | **3** |
| **1. Cyflwyniad** | **6** |
| 1.1 Cefndir | 6 |
| 1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 6 |
| 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol | 7 |
| **2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau** | **8** |
| 2.1 Ymwybyddiaeth, heb awgrymu, o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau | 8 |
| 2.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau | 9 |
| 2.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau | 10 |
| **3. Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau** | **12** |
| 3.1 Lefelau'r gefnogaeth i system optio allan | 12 |
| 3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan | 13 |
| **4. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau** | **14** |
| 4.1 Ymddygiad yr ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG | 16 |
| **5. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu** | **17** |
| Atodiad A: Methodoleg | 19 |
| Atodiad B: Holiadur | 23 |

## Rhestr o dablau a ffigurau

### Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl A.1 | Diffiniad o ranbarthau | 20 |
| Tabl A.2 | Diffiniad o grwpiau cymdeithasol | 21 |
| Tabl A.3 | Niferodd is-sampl yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol | 22 |


### Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 2.1 | Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau? | 8 |
| Ffigur 2.2 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran | 9 |
| Ffigur 2.3 | Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn? | 10 |
| Ffigur 2.4 | Gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran? | 11 |
| Ffigur 3.1 | Pa rai o'r datganiadau hyn am newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich safbwynt chi orau? | 12 |
| Ffigur 3.2 | Cyfran yr ymatebwyr o blaid y newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth | 13 |
| Ffigur 4.1 | Pan gyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n ei feddwl y byddwch yn ei wneud? | 14 |
| Ffigur 4.2 | Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl rhanbarth | 15 |
| Ffigur 4.3 | Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl grŵp cymdeithasol | 15 |
| Ffigur 4.4 | Ymddygiad yr ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG | 16 |
| Ffigur 5.1 | Cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau am roi organau ar ôl marw gydag aelod o'r teulu | 17 |
| Ffigur 5.2 | Wedi trafod dymuniadau am roi organau gydag aelod o'r teulu yn ôl rhanbarth | 18 |
| Ffigur 5.3 | Wedi trafod dymuniadau am roi organau gydag aelod o'r teulu yn ôl oedran | 18 |


## Canfyddiadau allweddol

## Cefndir

- Mae Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer caniatâd i roi organau a meinwe pobl sydd wedi marw yng Nghymru, a daw'n weithredol ar 1 Rhagfyr 2015.

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n galluogi i agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau yng Nghymru gael eu monitro. Gofynnwyd cwestiynau am roi organau yn Arolygon Omnibws Cymru ym mis Tachwedd 2014 (cam 6) a mis Mawrth 2015 (cam 7), a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.

- Yng ngham 6, gofynnwyd yr ystod lawn o gwestiynau a oedd yn rhoi sylw i lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad mewn perthynas â rhoi organau a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru. Canolbwyntiodd Cam 7 yr arolwg ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith yn unig.

- Os yw hynny'n bosib, caiff y canfyddiadau eu cymharu â chamau blaenorol yr arolwg a roddwyd ar waith rhwng mis Mehefin 2012 (cam 1) a mis Medi 2014 (cam 5).

## Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau. Yng ngham 7, dywedodd **mwy na chwech o bob deg** ymatebwr (63 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau, gan aros yn gymharol gyson ers cam 5.

- Yng ngham 7, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn yr ymwybyddiaeth o newidiadau yn ôl rhanbarth neu ryw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol, gyda'r ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:

    - Pobl 16 i 34 oed; ac
    - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

- O blith y rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r system rhoi organau, dywedodd rhyw ddwy ran o dair (65 y cant yng ngham 6; a 68 y cant yng ngham 7) eu bod wedi dod yn ymwybodol drwy raglenni newyddion ar y teledu neu raglenni eraill. Roedd yr ymateb amlaf nesaf drwy hysbysebu ar y teledu, a nodwyd gan un rhan o bump o'r ymatebwyr (19 y cant yng ngham 6, a 18 y cant yng ngham 7).

- Gofynnwyd cwestiwn penagored hefyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o newidiadau 'Ydych chi'n gallu dweud wrthyf i sut rydych yn meddwl y bydd y system yn newid?'. Yng ngham 6, dywedodd tri chwarter

(74 y cant) y byddai'n newid i system optio allan neu un o gydsyniad tybiedig, gan gynyddu i wyth allan o ddeg (81 y cant) yng ngham 7.

**Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau**

- Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i'r holl ymatebwyr a gofynnwyd a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani o'r blaen. Yng nghamau 6 a 7, dywedodd **bron i ddwy ran o dair** o'r ymatebwyr (64 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid, gan gynyddu ychydig ers y camau blaenorol.

- Yng ngham 7, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn ôl rhanbarth neu ryw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol, gyda'r ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:

    - Pobl 16 i 34 oed; ac
    - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

**Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid neu yn erbyn y newid yn y ddeddfwriaeth, ynteu a oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth i benderfynu. Fel sydd wedi digwydd ers cam 1, mae mwyafrif clir o ymatebwyr yn parhau i gefnogi'r newid yn y ddeddfwriaeth. Yng ngham 6:

    - roedd 64 y cant **o blaid**;
    - roedd 17 y cant **yn erbyn**; ac
    - roedd 20 y cant **eisiau rhagor o wybodaeth** i benderfynu neu nid oeddent yn gwybod.

- Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn agweddau tuag at y newidiadau yn ôl oedran neu ryw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol, gyda'r gefnogaeth i newid y ddeddfwriaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:

    - Ymatebwyr yn y Cymoedd; ac
    - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

- Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros fod o blaid y newid oedd y byddai'n arwain at achub mwy o fywydau (24 y cant), cynnydd yn nifer yr organau sydd ar gael (18 y cant), ac o fudd i bobl eraill (17 y cant).

- Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros fod yn erbyn y newid oedd ei fod yn dileu'r dewis i'r unigolyn (40 y cant), ac nad ydynt eisiau rhoi organau (17 y cant).

**Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau**

- Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth maent yn ei feddwl fyddant yn ei wneud pan gyflwynir y system feddal newydd o optio allan o roi organau. Yng ngham 6:
  - Byddai 72 y cant yn **optio i mewn neu ddim yn gweithredu o gwbl**;
  - Byddai 14 y cant yn **optio allan**; a
  - Nododd 13 y cant **ddim yn gwybod**.

- Roedd cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n optio i mewn neu ddim yn gweithredu'n amrywio o chwech allan o bob deg (60 y cant) yn y Cymoedd i bron i wyth allan o bob deg (78 y cant) yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

- Yng Ngogledd Cymru a Bae Abertawe, dywedodd 11 y cant o ymatebwyr y byddent yn optio allan, o gymharu â dwywaith y gyfran hon (22 y cant) yn y Cymoedd.

- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol hefyd yn ôl grŵp cymdeithasol, gydag ymatebwyr ABC1 yn fwy tebygol nag ymatebwyr C2DE o optio i mewn neu beidio â gweithredu o gwbl.

- Ymhlith ymatebwyr cam 6 a ddywedodd eu bod wedi cofrestru ar hyn o bryd ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG, dywedodd 95 y cant y byddent yn optio i mewn neu'n aros ar y gofrestr.

**Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau am roi organau ar ôl eich marwolaeth gydag aelod o'r teulu?'. Cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu oedd 42 y cant yng ngham 6. Mae'r gyfran wedi parhau tua phedwar allan o bob deg drwy gydol pob cam.

- Yng ngham 6, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu'n tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:
  - Ymatebwyr yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd;
  - Pobl 16 i 34 oed;
  - Dynion; ac
  - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Derbyniodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer caniatâd i roi organau a meinwe pobl sydd wedi marw yng Nghymru, a daw'n weithredol ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod yn weithredol, er mwyn sicrhau bod gan aelodau'r cyhoedd wybodaeth lawn am ystyr y newidiadau a'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a rhoi sail i'w datblygiad, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith rhoi organau, a'r agweddau tuag at newidiadau i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru.

I fodloni'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd. Mae data'n cael eu casglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016.

## 1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Yng ngham 6, gofynnwyd yr ystod lawn o gwestiynau a oedd yn rhoi sylw i lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad mewn perthynas â rhoi organau a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru. Canolbwyntiodd Cam 7 yr arolwg ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith yn unig.

Gwnaed y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ar gyfer cam 6 (1,003 o ymatebwyr) rhwng 17 a 28 Tachwedd 2014, a'r rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ar gyfer cam 7 (1,022 o ymatebwyr) rhwng 2 a 15 Mawrth 2015. Cynhaliwyd rhai cyfweliadau ar ôl y dyddiadau hyn yn y ddau gam. Mae'r arolwg wedi'i gynllunio i fod yn gynrychioliadol o boblogaeth 16 oed a hŷn Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn gynrychiolaeth ffeithiol o ganlyniadau ac mae'n cyflwyno canfyddiadau am agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau - nid yw'n craffu ar gysylltiadau achosol. Os yw hynny'n bosib, caiff y canfyddiadau eu cymharu â chamau blaenorol yr arolwg a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Medi 2014[1]. Mae'r dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio hefyd fel sail i dargedu'r cyfathrebu ymhlith grwpiau amrywiol o'r boblogaeth.

[1] Yr adroddiad ar gael yma: http://gov.wales/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?force=cy

### 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar y data wrth ddadansoddi, i helpu gyda dehongli'r canlyniadau ac fel sail i'r ymgyrch gyfathrebu. Pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd y ceir y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 - h.y. mae'n debygol o adlewyrchu perthynas wirioneddol yn y boblogaeth[2].

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad A. Atodir yr holiadur llawn yn Atodiad B.

[2] Pan fydd data arolwg yn cael eu profi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol, ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol, a bod yn fanwl gywir. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant.


# 2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

## 2.1 Ymwybyddiaeth, heb awgrym, o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrym, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau.

Yng ngham 7, dywedodd mwy na chwech o bob deg ymatebydd (63 y cant) eu bod yn ymwybodol o newidiadau, gan barhau'n gymharol gyson ers cam 5 (Ffigur 2.1).


**Ffigur 2.1: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau? [a]**




Sylfaen: 1,006 (W1 Mehefin 2012); 1,015 (W2 Mehefin 2013); 1,022 (W3 Tachwedd 2013); 1,029 (W4 Mehefin 2014); 1,002 (W5 Medi 2014); 1,003 (W6 Tachwedd 2014); 1,022 (W7 Mawrth 2015)
(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?'

Yng nghamau 6 a 7, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran yn yr ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau. Roedd tua hanner yr ymatebwyr iau na 35 oed yn ymwybodol o'r newidiadau o gymharu ag o leiaf dwy ran o dair o'r ymatebwyr 35 oed a hŷn (Ffigur 2.2).

**Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran**




Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014); 1,022 (W7 Mawrth 2015)

Yng nghamau 6 a 7, roedd hefyd wahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn ymwybodol o newidiadau (73 y cant yng ngham 6 a 72 y cant yng ngham 7) o gymharu ag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (53 y cant yng ngham 6 a 56 y cant yng ngham 7).

Yng ngham 7, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau yn ôl rhanbarth na rhyw.

## 2.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau 'Sut daethoch chi'n ymwybodol o'r newidiadau i'r system bresennol o roi organau?'.

Dywedodd ryw ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (65 y cant yng ngham 6; a 68 y cant yng ngham 7) eu bod wedi dod yn ymwybodol drwy raglen newyddion ar y teledu neu ar raglen arall. Yr ymateb amlaf nesaf oedd drwy hysbysebu ar y teledu, a nodwyd gan ryw un rhan o bump o'r ymatebwyr (19 y cant yng ngham 6, a 18 y cant yng ngham 7).


Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau 'Sut bydd y system yn newid yn eich barn chi?'. Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr (74 y cant) yng ngham 6 y byddai'n newid i system optio allan neu un o gydsyniad tybiedig, gan gynyddu i wyth allan o bob deg ymatebydd (81 y cant) yng ngham 7. Nid oedd tua un o bob deg (7 y cant yng ngham 6; ac 11 y cant yng ngham 7) yn gwybod sut byddai'n newid.

## 2.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i'r holl ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed rhywbeth amdani o'r blaen.

Yng nghamau 6 a 7, dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (64 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid, gan gynyddu ychydig ers y camau blaenorol (Ffigur 2.3).


**Ffigur 2.3: Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn?** [a] *(Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)*




Sylfaen: 1,006 (W1 Mehefin 2012); 1,015 (W2 Mehefin 2013); 1,022 (W3 Tachwedd 2013); 1,029 (W4 Mehefin 2014); 1,002 (W5 Medi 2014); 1,003 (W6 Tachwedd 2014); 1,022 (W7 Mawrth 2015)
(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y cynnig hwn o gwbl?'

Mae Ffigur 2.4 (isod) yn dangos ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith yn ôl oedran yng nghamau 6 a 7. Yn y ddau gam, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gyda thua hanner yr ymatebwyr iau na 35 oed wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid i'r ddeddf, o gymharu ag o leiaf dwy ran o dair o'r ymatebwyr 35 oed a hŷn.

**Ffigur 2.4: Gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran**




Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014); 1,022 (W7 Mawrth 2015)

Yng nghamau 6 a 7, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol hefyd, gyda thua thri chwarter yr ymatebwyr ABC1 (76 y cant yng ngham 6 a 72 y cant yng ngham 7) yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith o gymharu â llai na chwech o bob deg ymatebydd yn C2DE (55 y cant yng ngham 6 a 58 y cant yng ngham 7).

Yng ngham 7, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn ôl rhanbarth neu ryw.


# 3. Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau

## 3.1 Lefelau'r gefnogaeth i system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid neu yn erbyn y newid yn y ddeddfwriaeth, ynteu a oedd arnynt angen rhagor o wybodaeth i benderfynu.

Fel y mae Ffigur 3.1 yn dangos, mae mwyafrif clir o ymatebwyr yn parhau i gefnogi'r newid mewn deddfwriaeth, gyda 64 y cant o blaid yng ngham 6. Dywedodd llai nag un rhan o bump o'r ymatebwyr (17 y cant) yng ngham 6 eu bod yn erbyn y newid mewn deddfwriaeth.

**Ffigur 3.1: Pa rai o'r datganiadau hyn am newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich safbwynt chi orau? [a]**





Sylfaen: 1,006 (W1 Mehefin 2012); 1,015 (W2 Mehefin 2013); 1,022 (W3 Tachwedd 2013); 1,029 (W4 Mehefin 2014); 1,003 (W6 Tachwedd 2014)
(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pa rai o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich safbwynt chi orau?'

Yng ngham 6, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y gefnogaeth yn ôl oedran na rhyw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol.

Fel y mae Ffigur 3.2 yn dangos, roedd tua saith o bob deg ymatebydd yng Ngogledd Cymru, Caerdydd a De Ddwyrain Cymru a Bae Abertawe o blaid y newid mewn deddfwriaeth, o gymharu â chwech o bob deg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a thua hanner yn y Cymoedd.

**Ffigur 3.2: Cyfran yr ymatebwyr o blaid y newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth**




Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014)

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol hefyd, gyda saith o bob deg ymatebydd yng ngrwpiau ABC1 (71 y cant) o blaid y newid mewn deddfwriaeth o gymharu â thua chwech o bob deg ymatebydd yn C2DE (58 y cant).

### 3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan

Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr ynghylch pam roeddent o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan o roi organau.

Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros fod o blaid y newid oedd y byddai'n arwain at achub mwy o fywydau (24 y cant), cynnydd yn nifer yr organau sydd ar gael (18 y cant), a budd i bobl eraill (17 y cant).

Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros fod yn erbyn y newid oedd ei fod yn dileu'r dewis i'r unigolyn (40 y cant), ac nad ydynt eisiau rhoi organau (17 y cant).


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd bod arnynt angen mwy o wybodaeth i benderfynu pa wybodaeth ychwanegol oedd arnynt ei hangen. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd y byddai arnynt angen mwy o fanylion am sut byddai'r system yn gweithio (40 y cant).

## 4. Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr yng ngham 6 beth oeddent yn ei feddwl fyddant yn ei wneud pan gyflwynir y system feddal newydd o optio allan o roi organau.

Rhwng camau 1 a 6, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddant yn optio i mewn neu ddim yn gweithredu o gwbl o tua chwech o bob deg i saith o bob deg. Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n dweud y byddant yn optio allan wedi parhau'n gymharol sefydlog ers cam 3 (Ffigur 4.1).

**Ffigur 4.1: Pan gyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n ei feddwl y byddwch yn ei wneud? [a]**





Sylfaen: 1,006 (W1 Mehefin 2012); 1,015 (W2 Mehefin 2013); 1,022 (W3 Tachwedd 2013); 1,029 (W4 Mehefin 2014); 1,003 (W6 Tachwedd 2014)
(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pe bai'r system newydd o optio allan yn cael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych yn ei feddwl y byddech yn ei wneud?'

Yng ngham 6, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran na rhyw o ran sut mae'r ymatebwyr yn meddwl y byddant yn gweithredu o dan y system newydd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol.

Fel y mae Ffigur 4.2 yn dangos, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn optio i mewn neu ddim yn gweithredu o gwbl yn amrywio o chwech o bob deg (60 y cant) yn y Cymoedd i bron i wyth o bob deg (78 y cant) yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru.

Yng Ngogledd Cymru a Bae Abertawe, dywedodd 11 y cant o'r ymatebwyr y byddent yn optio allan, o gymharu â dwywaith y gyfran hon (22 y cant) yn y Cymoedd.


**Ffigur 4.2: Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl rhanbarth**




Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014)

Dangosir y gwahaniaethau yn yr ymddygiad yn ôl grŵp cymdeithasol yn Ffigur 4.3 (isod). Yn gyffredinol, dywedodd bron i wyth o bob deg ymatebydd ABC1 (78 y cant) y byddent yn optio i mewn neu ddim yn gweithredu o gwbl o gymharu â bron i saith o bob deg o ymatebwyr C2DE (68 y cant). Roedd ymatebwyr C2DE yn fwy tebygol nag ymatebwyr ABC1 o ddweud nad oeddent yn gwybod beth fyddant yn ei wneud.

**Ffigur 4.3: Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl grŵp cymdeithasol**





Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014)

## 4.1 Ymddygiad yr ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG

Ymhlith yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cofrestru ar hyn o bryd ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG (28 y cant yng ngham 6)[3], parhaodd y gyfran a ddywedodd y byddent yn optio i mewn neu'n aros ar y gofrestr i fod dros naw o bob deg (95 y cant) yng ngham 6 (Ffigur 4.4).

**Ffigur 4.4: Ymddygiad yr ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG [a]**





Sylfaen: 236 (W1 Mehefin 2012); 260 (W2 Mehefin 2013); 270 (W3 Tachwedd 2013); 290 (W4 Mehefin 2014); 283 (W6 Tachwedd 2014)
(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pe bai'r system newydd o optio allan yn cael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n ei feddwl fyddech chi'n ei wneud?'

[3] Yn ôl Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT), roedd 33 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru ar y Gofrestr Rhoi Organau erbyn 31 Mawrth 2014. Nid yw'r rheswm am y gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn yn eglur, er bod gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2012) yn awgrymu nad yw rhai pobl sy'n cario cerdyn rhoddwr bob amser yn siŵr a ydynt ar y gofrestr (gweler [http://wales.gov.uk/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=en](http://wales.gov.uk/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=en)). Hefyd, er bod sampl Arolwg Omnibws Cymru'n ceisio bod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth o oedolion sy'n byw yng Nghymru ac yn defnyddio mesurau rheoli cwota demograffig, nid oes cwotâu'n cael eu pennu ar gyfer statws rhoi organau.

## 5. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl i chi farw gydag aelod o'r teulu?'. Fel y mae Ffigur 5.1 yn dangos, mae cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu wedi parhau i fod tua phedwar o bob deg ym mhob cam.

**Ffigur 5.1: Cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau am roi organau ar ôl marw gydag aelod o'r teulu**




Sylfaen: 1,006 (W1 Mehefin 2012); 1,015 (W2 Mehefin 2013); 1,022 (W3 Tachwedd 2013); 1,029 (W4 Mehefin 2014); 1,003 (W6 Tachwedd 2014)


Yng ngham 6, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau am roi organau ar ôl marw gydag aelod o'r teulu.

Fel y mae Ffigur 5.2 yn dangos, roedd 36 y cant o ymatebwyr Caerdydd a De Ddwyrain Cymru a'r Cymoedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, o gymharu â bron i hanner (48 y cant) yng Ngogledd Cymru a Bae Abertawe.

Mae'r dadansoddiad yn ôl oedran yn dangos mai dim ond traean (34 y cant) o bobl 16 i 34 oed oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, o gymharu â hanner (50 y cant) y bobl 35 i 54 oed a phedwar o bob deg (42 y cant) o bobl 55+ oed (Ffigur 5.3).


Hefyd, roedd cyfran arwyddocaol uwch o ferched (47 y cant) na dynion (37 y cant) wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau ag aelod o'r teulu, ac felly hefyd cyfran arwyddocaol uwch o ymatebwyr ABC1 (51 y cant) nag ymatebwyr C2DE (36 y cant).

**Ffigur 5.2: Wedi trafod dymuniadau am roi organau gydag aelod o'r teulu yn ôl rhanbarth**




Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014)

**Ffigur 5.3: Wedi trafod dymuniadau am roi organau gydag aelod o'r teulu yn ôl oedran**




Sylfaen: 1,003 (W6 Tachwedd 2014)

## Atodiad A: Methodoleg

Cynlluniwyd sampl Arolwg Omnibws Cymru i gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Yr uned samplu yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru gyda'r tebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu fesul awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

Ym mhob pwynt samplu, defnyddir mesurau rheoli cwotâu demograffig mewn perthynas ag oedran a grŵp cymdeithasol o fewn rhyw er mwyn dewis ymatebwyr. Pennir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw yng ngrwpiau'r awdurdodau unedol, er mwyn rhoi'r nifer cywir i bob cell o fewn cyfanswm Cymru yn deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chynhelir cyfweliad â mwy nag un person o bob teulu. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadurol (CAPI).

Yng Ngham 6, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 17 a 28 Tachwedd 2014, gydag ychydig o gyfweliadau'n cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,003 o gyfweliadau wyneb yn wyneb. Ar gyfer Cam 7, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 2 a 15 Mawrth 2015, gydag ychydig o gyfweliadau'n cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,022 o gyfweliadau wyneb yn wyneb.

### Samplu cwota cyfrannol

Pan fydd data arolwg yn cael eu profi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid samplu ar hap), ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol, a bod yn fanwl gywir[4]. Felly, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant. Mae hyn yn golygu, pe bai'r arolwg yn defnyddio sampl ar hap, y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

### Dadansoddiad chi-sgwâr

Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i benderfynu pa un ai yw perthynas a arsylwyd rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru).

[4] Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

## Diffiniad o ranbarthau

Mae Tabl A.1, isod, yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sydd yn y rhanbarthau a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

**Tabl A.1: Diffiniad o ranbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

## Diffiniad o grwpiau cymdeithasol

Mae Tabl A.2, isod, yn rhoi diffiniad o ddosbarthiad y grwpiau cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

**Tabl A.2: Diffiniad o grwpiau cymdeithasol**

| Grŵp cymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel uchel |
| B | Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel ganolradd |
| C1 | Gweithwyr goruchwylio, clerigol a rheolwyr iau, gweithwyr gweinyddol neu broffesiynol |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw â sgiliau |
| D | Gweithwyr llaw â rhai sgiliau a heb sgiliau |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y raddfa isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

## Meintiau'r is-sampl

Mae Tabl A.3, isod, yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi data mis Tachwedd 2014 a mis Mawrth 2015. Nodir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli a'r samplau wedi'u pwysoli.

**Tabl A.3: Niferoedd is-sampl yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol**

| | Tachwedd 2014 | | Mawrth 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Sampl heb ei phwysoli** | **Sampl wedi'i phwysoli** | **Sampl heb ei phwysoli** | **Sampl wedi'i phwysoli** |
| **Rhanbarth** | | | | |
| Gogledd Cymru | 240 | 226 | 237 | 230 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 200 | 170 | 166 | 174 |
| Bae Abertawe | 191 | 171 | 140 | 174 |
| Y Cymoedd | 176 | 176 | 202 | 179 |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | 196 | 260 | 277 | 265 |
| **Oedran** | | | | |
| 16 – 34 oed | 316 | 294 | 298 | 299 |
| 35 – 54 oed | 296 | 327 | 276 | 334 |
| 55+ oed | 391 | 382 | 448 | 389 |
| **Rhyw** | | | | |
| Dynion | 437 | 487 | 458 | 497 |
| Merched | 566 | 516 | 564 | 525 |
| **Grŵp cymdeithasol** | | | | |
| ABC1 | 406 | 421 | 461 | 465 |
| C2DE | 597 | 582 | 561 | 557 |

**Saesneg yn unig**

# Annex B: Questionnaire

**Organ Donation Omnibus Questions**
**Waves 6 and 7**

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

**Could you read this card please**

SHOWCARD
Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any changes that will be taking place to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2a. How did you become aware of the changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV - advertising

On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine
Poster
Leaflet
Someone told me
Other, please specify

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q3. Can you tell me how you think the system will change?

OPEN ENDED

**Please take a look at this card**

SHOWCARD
The National Assembly for Wales has passed a law to change the organ donation procedure to a 'soft opt out' system. From December 2015 people will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The law will allow family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this change?

- Yes
- No
- Don't know

WAVE 7 QUESTIONS STOP HERE

Q5. Which of these statements about changes to the organ donation system in Wales best reflects your view?

REFER TO SHOWCARD IF NECESSARY: People will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue

- I am in favour of this change in legislation
- I am against this change in legislation
- I need more information to decide
- Don't know

ASK IF IN FAVOUR OF CHANGE AT Q5

Q6a. Can you tell me why you are in favour of the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF AGAINST CHANGE AT Q5

Q6b. Can you tell me why you are against the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF NEED MORE INFORMATION AT Q5

Q6c. Can you tell me what additional information you need?

OPEN ENDED

SHOWCARD

Q7. When the new system of opting out is introduced, which of the following best describes what you think you will do?

- I will register a wish **not** to be a donor (i.e. opt out)
- I will register a wish to be a donor (i.e. opt in)
- I've already registered a wish to be a donor (and will take no further action – i.e. remain opted in)
- I've not registered a wish to be a donor, but **I don't** think I'll opt out of being one
- Don't know

INTERVIEWER NOTE: If respondent without prompting mentions something other than the answers on the card or DK, please record here:

Q8a/b/c/d. Can you tell me why that is [ANSWER AT Q7]?

OPEN ENDED

Q9. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q10. And can you tell me if you are currently registered on the NHS Organ Donor Register?

- Yes
- No
- Don't know